

Dychwelyd i ymarfer

Ymgynghoriad ar ailymuno â'n
cofrestr neu aros arni yn dilyn
amser i ffwrdd o ymarfer

Medi 2018



Amdanom ni	3
Pam rydym yn cynnal ymgynghoriad?	4
Beth sydd angen i chi ei wybod am gofrestru	5
- Cefndir	5
- Ailymuno â'r gofrestr – beth sy'n digwydd ar hyn o bryd	6
- Ailddilysu ac aros ar ein cofrestr	7
Ein rôl mewn addysg a'n safonau newydd	9
Ein safbwyntiau hyd yma	11
Sut y bydd yr ymgynghoriad hwn yn gweithio?	13
- Beth fyddwn yn ei ofyn i chi	13
Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn	14
Yr ymgynghoriad	15

Amdanom ni

[Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth](#) (NMC) yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU.

Rydym yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd yn y DU. Rydym yn gwneud hyn drwy bennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad, fel bod nyrsys a bydwragedd yn gallu darparu gofal iechyd o ansawdd uchel drwy gydol eu gyrfaedd.

Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys a bydwragedd sy'n bodloni'r safonau hyn, ac mae gennym brosesau clir a thryloyw er mwyn ymchwilio i nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn llwyddo i gyflawni ein safonau.

O [2019, bydd cymdeithion nyrsio](#) hefyd yn gallu gwneud cais i ymuno â'n cofrestr.

Ar hyn o bryd mae rhan y nyrsys o'r gofrestr wedi'i rhannu'n ddwy is-ran ar gyfer nyrsys cofrestredig lefel gyntaf ac ail lefel. Roedd y rhan fwyaf o nyrsys ail lefel wedi cymhwysu'n wreiddiol fel nyrsys cofrestredig gwladol. Mae cofrestru yn y naill is-ran neu'r llall yn galluogi unigolyn i gael ei alw'n 'nyrs gofrestredig' ac nid oes unrhyw wahaniaeth yng nghwmpas ymarfer posibl y rhai ar y ddwy is-ran. Caewyd yr [is-ran i nyrsys ail lefel](#) i bob cais newydd ym mis Gorffennaf 2018, ond mae'n bosibl o hyd i nyrsys sydd wedi'u cofrestru yn yr is-ran hon o'r gofrestr ar hyn o bryd neu a gafodd eu cofrestru yn yr is-ran hon yn flaenorol, aiddilysu, adnewyddu eu cofrestriad a gwneud cais i gael eu haillderbyn a'u hadfer.

Felly, bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn gymwys i bob nyrs, gan gynnwys nyrsys ail lefel, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, sydd wedi bod i ffwrdd o ymarfer ers peth amser ac sy'n dymuno dychwelyd i'n cofrestr neu aros arni.

Nodir ein rôl, ein swyddogaethau a'n pwerau yng [Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001](#) ('y Gorchymyn').

Pam rydym yn cynnal ymgynghoriad?

Rydym am wybod beth yw eich barn am y ffordd y dylai nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio (o 2019) ailymuno â'n cofrestr neu aros arni ar ôl cyfnod i ffwrdd o ymarfer.

Rydym yn rheoli cofrestr ymarfer. Mae ein deddfwriaeth yn nodi'r oriau ymarfer gofynnol y mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cwblhau er mwyn [aiddilysu](#) neu ailymuno â'n cofrestr (os nad ydynt wedi'u cofrestru am gyfnod o hyd at bum mlynedd).

Os nad ydynt wedi cwblhau'r oriau ymarfer gofynnol hyn, neu os nad ydynt wedi bod ar y gofrestr ers dros bum mlynedd, yna gallwn bennu safonau sy'n nodi pa addysg, hyfforddiant neu brofiad sydd eu hangen arnynt er mwyn i ni ganiatáu iddynt aros ar y gofrestr neu ailymuno â hi. Bwriedir i'r safonau hyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n adnewyddu eu cofrestriad ac unigolion sy'n ailymuno â'r gofrestr yn cyrraedd y safonau angenrheidiol er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Gelwir y rhain yn [safonau dychwelyd i ymarfer](#).

O dan ein safonau dychwelyd i ymarfer presennol, mae'n ofynnol i nyrsys a bydwragedd gwblhau rhaglen addysg a gymeradwywyd gan yr NMC.

Rydym yn moderneiddio ein holl safonau addysg. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae angen i ni adolygu sut rydym yn ymdrin â dychwelyd i ymarfer.

Rydym yn ystyried y rhwystrau a wynebir gan y rhai sy'n ailymuno neu sy'n dymuno aros ar y gofrestr ond nad ydynt yn bodloni ein gofynion o ran cwblhau oriau ymarfer. Bydd ein Cyngor yn defnyddio canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn i lywio ei benderfyniad i gymeradwyo safonau newydd ar gyfer dychwelyd i ymarfer.

Dyma rai enghreifftiau o bryd y bydd angen i nyrs neu fydwraig gwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer o bosibl.

- Efallai y bydd unigolion nad ydynt wedi bod yn ymarfer ac y mae eu cofrestriad wedi mynd yn ddi-rym am wneud cais i ailymuno â'n cofrestr.
- Efallai y bydd unigolion sydd wedi bod yn ymarfer y tu allan i'r DU ac y mae eu cofrestriad wedi mynd yn ddi-rym am wneud cais i ailymuno â'n cofrestr.
- Unigolion sydd wedi bod i ffwrdd o ymarfer ac sydd am aros ar ein cofrestr ond nad ydynt wedi ymarfer am yr oriau gofynnol i aiddilysu. Gallai hyn fod o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth neu salwch.
- Unigolion sydd wedi cael eu dileu o'n cofrestr ar ôl gwrandawriad addasrwydd i ymarfer, ac sydd bellach wedi cael caniatâd gan banel addasrwydd i ymarfer i ailymuno â'n cofrestr.

Rydym am glywed eich barn. Rydym yn croesawu ymatebion gan unrhyw sefydliadau ac unigolion â diddordeb.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn rhwng 24 Medi 2018 a 16 Tachwedd 2018.

Beth sydd angen i chi ei wybod am gofrestru

Cefndir

Er mwyn ymarfer fel nyrs neu fydwraig yn y DU neu fel cydymaith nyrsio yn Lloegr, mae'n rhaid i nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio gofrestru â ni. Ystyr 'ymarfer' yw gweithio fel nyrs gofrestredig, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

Nodir y gofynion llawn ar gyfer cofrestru yn [ein deddfwriaeth](#).

Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth sy'n ymuno â'n cofrestr, ailymuno neu aros arni gyrraedd y safonau angenrheidiol er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r safonau dychwelyd i ymarfer yn gymwys i nyrsys a bydwragedd:

- nad ydynt wedi bod ar ein cofrestr ers peth amser ac na allant gyflawni'r oriau ymarfer gofynnol i ailymuno â'r gofrestr, neu
- nad ydynt wedi cwblhau eu horiau ymarfer gofynnol i gael eu hailddilysu.

Mae'r safonau hyn yn nodi pa addysg, hyfforddiant neu brofiad sydd ei angen ar nyrs neu fydwraig er mwyn i ni ganiatáu iddynt ailymuno â'n cofrestr ac aros arni.

O dan ein safonau presennol, dim ond un ffordd o ailymuno â'r gofrestr sydd ar gael i unrhyw un nad yw wedi ymarfer ers peth amser, hynny yw drwy gwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer nyrsio neu raglen addysg bydwreigiaeth a gymeradwywyd gan yr NMC. Mae rhaglenni ar wahân i nyrsys a bydwragedd. Cânt eu rhedeg gan brifysgolion ac maent yn para rhwng 3 a 12 mis fel arfer.

Rydym am gynnig mwy o hyblygrwydd yn y maes hwn o'r drefn reoleiddio tra'n sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol.

- Rydym am ddileu unrhyw rwystrau diangen i'r rhai sy'n dychwelyd i ymarfer, tra'n parhau i ddiogelu'r cyhoedd.
- Rydym yn cydnabod y gall newidiadau yn y gweithlu a phatrymau gwaith arwain at fwy o alw am ffyrdd mwy hyblyg o ailymuno â'n cofrestr ac aros arni.
- Rydym am gysoni ein safonau ar gyfer aildderbyn a dychwelyd i ymarfer â'n [Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant](#), sef ein safonau newydd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Mae'r safonau hyn yn rhoi cyfleoedd i arloesi mewn addysg a chynnig mwy o hyblygrwydd i addysgwyr a myfyrwyr.
- Credwn ei bod yn bwysig ystyried ffyrdd amgen y gallai unigolyn nad yw wedi ymarfer ers peth amser ddangos y safonau hyfedredd gofynnol a chael ailymuno â'n cofrestr neu aros arni.

- Rydym bellach yn rheoleiddio cymdeithion nyrsio ac mae angen i ni sicrhau bod y safonau dychwelyd i ymarfer ac aildderbyn yn gymwys i safonau hyfedredd pob grŵp proffesiynol ar ein cofrestr.
- Yn unol â'n dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus¹, rydym yn dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac yn hyrwyddo cydraddoldeb i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.

Ailymuno â'r gofrestr – beth sy'n digwydd ar hyn o bryd

Gall gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydweigiaeth sydd wedi bod ar ein cofrestr yn flaenorol wneud cais i [gael eu haildderbyn ar y gofrestr](#). Mae'n rhaid iddynt fodloni nifer o ofynion a nodir yn ein deddfwriaeth, ein safonau a'n canllawiau, sef yn gryo:

- 750 o oriau ymarfer gofynnol dros 5 mlynedd neu 450 o oriau ymarfer dros 3 blynedd, neu gwblhau cwrs dychwelyd i ymarfer cymeradwy.
- 35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP), y mae'n rhaid i 20 awr o leiaf fod yn ddysgu cyfranogol
- gofynion iechyd a chymeriad
- gofynion indemniad proffesiynol
- gofynion iaith Saesneg
- geirdaon.

Os bydd nyrs neu fydwraig yn gwneud cais i gael ei haildderbyn o fewn chwe mis i'r dyddiad y byddai wedi cael ei hailddilysu, bydd angen bodloni gofynion ailddilysu ychwanegol hefyd.

Oriau ymarfer gofynnol

Mae ein deddfwriaeth yn nodi'n benodol bod angen i nyrsys a bydwragedd ymarfer am 750 o oriau dros y pum mlynedd diwethaf os ydynt yn ceisio ailymuno â'r gofrestr. Ar hyn o bryd, rydym hefyd yn caniatáu i nyrs neu fydwraig ymarfer am 450 o oriau dros y tair blynedd diwethaf yn yr un modd â'r rhai sy'n ceisio adnewyddu eu cofrestriad drwy [ailddilysu](#) (gweler isod). Dim ond cwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer y mae angen i nyrsys a bydwragedd ei wneud os nad ydynt yn bodloni'r naill na'r llall o'r gofynion hyn².

Ymarfer dramor

Mae poblogaeth fach o nyrsys cofrestredig a bydwragedd yn ymarfer y tu allan i'r DU. Maent yn dewis cadw eu cofrestriad â'r NMC ac yn parhau i fodloni'r gofynion ailddilysu, gan ddibynnu ar eu horiau ymarfer dramor.

¹ Section 149 of the Equality Act 2010

² Weithiau, gellir gwneud cais adfer cyn bod pum mlynedd wedi mynd heibio.

Nid yw rhai nyrsys a bydwragedd yn cadw eu cofrestriad â'r NMC wrth ymarfer dramor ond maent yn ymarfer ac wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr tramor. Rydym yn caniatáu iddynt ddibynnu ar nifer gyfatebol o oriau ymarfer cofrestredig yn y wlad lle maent wedi bod yn gweithio wrth iddynt wneud cais i ailymuno â'n cofrestr.

Nid ydym am newid yr oriau ymarfer gofynnol presennol (a fyddai'n gofyn am newidiadau deddfwriaethol) na'r gofynion amgen ar gyfer oriau ymarfer a nodir uchod. Bydd ein Safonau dychwelyd i ymarfer newydd yn cynnwys yr un gofynion ynglŷn â'r oriau ymarfer.

Ailymuno â'r gofrestr ar ôl gorchymyn dileu

Bum mlynedd ar ôl i rywun gael ei ddileu o'r gofrestr, gall [wneud cais am gael ei adfer yn y gofrestr](#)³. Caiff y cais ei ystyried gan banel addasrwydd i ymarfer a fydd yn penderfynu a yw'r ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ymarfer y proffesiwn perthnasol. Mae'r safonau dychwelyd i ymarfer yn gymwys i'r rhai sy'n ceisio cael eu hadfer yn y rhestr ar ôl cael eu dileu – felly gall y panel ofyn i rywun gwblhau cwrs dychwelyd i ymarfer cyn ailymuno â'r gofrestr.

Byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn gymwys i bob un sy'n ailymuno â'r gofrestr ar ôl cyfnod i ffwrdd o ymarfer, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio cael eu hadfer

- [Darllenwch fwy am ein gofynion aildderbyn presennol](#)

Ailddilysu ac aros ar ein cofrestr

Mae ein deddfwriaeth yn nodi'r oriau ymarfer gofynnol y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd eu cwblhau dros gyfnod o dair blynedd ers i'w cofrestriad gael ei adnewyddu ddiwethaf (neu ers ymuno â'r gofrestr) er mwyn aros ar ein cofrestr. Mae nifer yr oriau ymarfer yn un o ofynion [ailddilysu](#). Mae'r tabl isod yn nodi'r gofynion o ran oriau ymarfer i ailddilysu.

Oriau ymarfer i adnewyddu drwy ailddilysu

Cofrestriad	Oriau ymarfer i adnewyddu drwy ailddilysu ⁴
Nyrs, neu Fydwraig, neu Gydymaith nyrsio	450 o oriau ymarfer yn ofynnol
Nyrs a SCPHN ⁵ Bydwraig a SCPHN	450 o oriau ymarfer yn ofynnol
Nyrs a bydwraig (gan gynnwys Nyrs/SCHPN a bydwraig/SCHPN)	900 o oriau ymarfer yn ofynnol (i gynnwys 450 o oriau ar gyfer nyrsio, 450 o oriau ar gyfer bydwreigiaeth)

³ Weithiau, gellir gwneud cais adfer cyn bod pum mlynedd wedi mynd hebio.

⁴ Rheol 3(4) o Reolau Addysg, Cofrestru ac Apeliadau Cofrestru 2004 ('Rheolau Cofrestru')

⁵ Nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCHPN), rhan o'r gofrestr ar gyfer nyrsys cofrestredig a bydwragedd sy'n gweithio mewn rolau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Byddant wedi cwblhau cyrsiau SCPHN a gymeradwywyd gennym.

Pan na fydd nyrs neu fydwraig wedi ymarfer digon o oriau i ailddilysu (fel y nodir uchod), mae'n rhaid cwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer cyn y gall adnewyddu ei chofrestrriad⁶.

Yn ogystal â'r gofynion o ran oriau ymarfer, [mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd fodloni gofynion eraill](#). Maent yn cynnwys:

- 35 awr o DPP (y mae'n rhaid i 20 awr o leiaf fod yn ddysgu cyfranogol)
 - pum darn o adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer
 - pum cofnod myfyriol ysgrifenedig
 - trafodaeth fyfyrion
 - bodloni gofynion iechyd a chymeriad
 - bodloni gofynion yswiriant indemniad proffesiynol
 - cadarnhad
-
- [Darllenwch fwy](#) am ein gofynion ailddilysu.

Dyna'r cyfan y mae angen i chi ei wybod am gofrestru. Byddwn nawr yn dweud wrthydych am ein rôl yn addysg nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsiot.

⁶ Mae'r safon ar gael yma: <https://www.nmc.org.uk/standards-for-education-and-training/return-to-practice-courses/>


Os ydych wedi ymarfer am lai na'r nifer ofynnol o oriau yn y cyfnod o dair blynedd ers i'ch cofrestrriad gael ei adnewyddu ddiwethaf neu ers i chi ymuno â'r gofrestr, yna cyn dyddiad eich cais i adnewyddu cofrestrriad rhaid i chi gwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer briodol a gymeradwywyd gan yr NMC yn llwyddiannus.

Ein rôl mewn addysg a'n safonau newydd

Yn 2015 gwnaethom ddechrau ar [raglen newid pum mlynedd](#) ar gyfer ein safonau addysg.

Dair blynedd yn ddiweddarach, ym mis Mai 2018, cyhoeddwyd y rhai cyntaf o'n safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae'r safonau hyn mewn tair rhan: mae [rhan 1](#) a [rhan 2](#) yn gymwys i bob rhaglen addysg ac mae [rhan 3](#) yn cynnwys manylion penodol ar gyfer pob rhaglen a gymeradwyir gennym. Gwnaethom hefyd gyhoeddi Nyrs y Dyfodol: [Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig](#).

Mae'r ymgynghoriad ar [Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio](#) bellach wedi cau. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r safonau ym mis Hydref 2018. Rydym hefyd yn gweithio ar [Bydwraig y Dyfodol: Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd](#) a'r disgwyl yw y byddwn yn ymgynghori ym mis Chwefror 2019 ac yn cyhoeddi'r safonau newydd yn ddiweddarach yn 2019.



Y safonau hyfedredd a'n cofrestr

Er mwyn ymuno â'r gofrestr, mae'n rhaid i nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ddangos ei bod yn cyrraedd y safonau hyfedredd⁷. Gall wneud hyn drwy'r dulliau canlynol:

- **Rhaglen addysg a gymeradwywyd gan yr NMC**

Yn y DU, rydym yn cymeradwyo rhaglenni addysg cyn cofrestru i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Rydym hefyd yn cymeradwyo rhaglenni ôl-gofrestru a rhaglenni dychwelyd i ymarfer.

- **Cydnabod cymwysterau proffesiynol ein gilydd**

Gall nyrsys a bydwragedd sydd wedi cael eu hyfforddi yn yr AEE ddefnyddio eu cymwysterau i wneud cais i gofrestru yn y DU. Nodir hyn yng Nghyfarwyddeb yr UE⁸. Bydd gan gymdeithion nyrsio yr un hawliau.

- **Prawf cymhwysedd**

Gall nyrsys a bydwragedd sydd wedi cael eu hyfforddi y tu allan i'r AEE sefyll prawf mewn dwy ran – sy'n cynnwys prawf amlddewis ar gyfrifiadur ac archwiliad clinigol sydd wedi'i deilwra ar gyfer y rhan o'r gofrestr y mae'r ymgeisydd yn gwneud cais i ymuno â hi. Mae'r prawf cymhwysedd yn seiliedig ar safonau hyfedredd perthnasol ac mae'n unol â'n safonau addysg. Bydd cymdeithion nyrsio hefyd yn gallu sefyll prawf cymhwysedd.

Gall y prawf cymhwysedd hefyd gael ei ddefnyddio gan nyrsys a [bydwragedd sydd wedi cael eu hyfforddi yn y DU nad oeddent wedi cofrestru eu cymhwyster o fewn pum mlynedd](#). Mae hyn yn ddewis amgen yn lle cwblhau eu gradd unwaith eto.

Pan fydd rhywun yn ymuno â'n cofrestr gyntaf, rydym yn eu hasesu yn erbyn yr holl safonau hyfedredd ar gyfer ei ran o'r gofrestr drwy ddefnyddio un o'r dulliau uchod.

Unwaith eu bod ar ein cofrestr, mae'n rhaid i bawb gadw eu hyfedredd a sicrhau eu bod yn gyfredol o fewn eu cwmpas ymarfer unigol yn unol â [Y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd](#).

Mae'n rhaid i bobl sy'n ceisio ailymuno â'r gofrestr ddangos eu bod yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol o hyd. Mae'r graddau y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ailhyfforddi yn dibynnu ar eu hymarfer blaenorol, yr amser i ffwrdd o ymarfer ac unrhyw addysg, hyfforddiant neu brofiad arall sydd ganddynt.

⁷ Erthyglau 5(2), 9 a 10 o'r Gorchymyn

⁸ Cyfarwyddeb yr UE 2005/36/ EC

Ein safbwyntiau hyd yma

O ganlyniad i'n hadolygiad o safonau addysg ar gyfer nyrsys a bydwragedd aethom ati i ystyried sut y gallwn wella ein safonau er mwyn nodi ein disgwyliadau ar gyfer y rhaglenni dychwelyd i ymarfer yn glir a hefyd ystyried dau ddull newydd o ddychwelyd i ymarfer: prawf cymhwysedd a hunanddatganiad.

Rydym wedi siarad â phobl sydd â diddordeb mewn dychwelyd i ymarfer, gan gynnwys cyflogwyr, addysgwyr, nyrsys, bydwragedd a myfyrwyr. Rydym hefyd wedi siarad â rheoleiddwyr eraill yn y DU er mwyn cael gwybod sut maent yn ymdrin ag aildderbyn a dychwelyd i ymarfer.

Drwy ein hadolygiad a gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyfarfodydd a gweminarau, rydym wedi datblygu'r cynigion a amlinellwn yn yr ymgynghoriad hwn. Rydym yn gofyn am eich barn ar y canlynol:

1. **Y rhwystrau i ddychwelyd i ymarfer**

Rydym yn ystyried pa rwystrau a all fod yn y dull gweithredu presennol a beth all fod yn atal pobl rhag dilyn a chwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer.

2. **Safonau drafft newydd ar gyfer Rhaglenni dychwelyd i ymarfer**

Mae rhaglenni dychwelyd i ymarfer yn cynnig cyfleoedd i astudio theori a phrofiadau dysgu ymarfer. Bydd y safonau hyn yn disodli'r Safonau ar gyfer cyrsiau dychwelyd i ymarfer presennol ac yn nodi ein disgwyliadau yn gliriach. Rydym yn anelu at roi mwy o hyblygrwydd i'n darparwyr addysg. Rydym am annog y defnydd o dechnoleg newydd ac arloesed, gan gynnwys y defnydd o efelychu a dysgu o bell, tra'n sicrhau goruchwyliaeth ac asesiad priodol i fyfyrwyr profiadol sy'n rhan o raglenni dychwelyd i ymarfer. Dylid darllen y safonau drafft hyn ar y cyd â'r Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant rhannau 1 a 2. Byddant yn gymwys i raglenni ar gyfer pobl nad ydynt wedi bod yn ymarfer ac sy'n ceisio aros ar ein cofrestr, neu ymuno â hi.

3. **Prawf cymhwysedd mewn dwy ran**

Rydym yn gofyn a all prawf gwybodaeth ac archwiliad ymarferol o'r ffordd y cymhwysir gwybodaeth a sgiliau (drwy archwiliad clinigol strwythuredig gwrthrychol) fod yn briodol, mewn egwyddor, i rai pobl nad ydynt wedi bod yn ymarfer ac sy'n ceisio ailymuno â'n cofrestr, neu aros arni. Byddai hyn yr un fath â'r prawf a ddefnyddir gan y rhai sy'n ceisio ymuno â'n cofrestr o dramor am y tro cyntaf.

4. **Hunanddatganiad**

Rydym yn gofyn am eich barn ar b'un a ddylem hefyd ystyried opsiwn o ganiatáu cyflwyno portffolio yn y dyfodol o dan unrhyw amgylchiadau lle nad yw unigolion wedi bod yn ymarfer ac maent yn ceisio ailymuno â'n cofrestr, neu aros arni. Gallai'r portffolio hwn ddangos, er enghraifft, gyfuniad o ddatblygiad proffesiynol parhaus ac ychydig o ymarfer dan oruchwyliaeth.

Dychwelyd i ymarfer

Pobl nad ydynt yn ymarfer
.....
Pobl sy'n ymarfer y tu allan i'r DU
.....
Pob sydd wedi'u dileu oddi ar y gofrestr

Cyfnod o beidio â bod yn gofrestrdig

Methu â bodloni'r gofyniad 450 awr

Dilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer

Rydym am glywed eich barn ar y canlynol:

y rhwystrau i ddychwelyd i ymarfer	ein cynigion ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer a gyflwynir yn y Safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer drafft	p'un a allwn ystyried prawf cymhwysedd neu hunan-ddatganiad ar gyfer rhai pobl, yn lle rhaglen	ein Safonau dychwelyd i ymarfer newydd drafft
------------------------------------	--	--	---

Wedi ymarfer am lai na 450 awr

Caiff gwaith nyrsys a bydwragedd ei alw'n 'ymarfer' ac mae gennym 'gofrestr ymarfer'. Rhaid i nyrsys, bydwragedd ac (o 2019) nyrsys cyswllt fod wedi gweithio am o leiaf 450 awr dros dair blynedd er mwyn adnewyddu eu cofrestriad.

.....

Os na fydd rhywun wedi gweithio'r oriau hyn, neu os ydynt wedi gadael y gofrestr ac yn awyddus i ailymuno, mae'n rhaid iddynt ddilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer er mwyn sicrhau y gallant ddarparu gofal diogel.

.....

Mae rhaglenni dychwelyd i ymarfer yn gymysgedd o astudio a gweithio gydag eraill. Maent yn para rhwng 3 a 12 mis.

Sut y bydd yr ymgynghoriad hwn yn gweithio?

Beth fyddwn yn ei ofyn i chi

Hoffem gael eich barn ar y ffordd rydym yn ei gwneud yn bosibl i bobl ailymuno â'n cofrestr, neu aros ar ein cofrestr, ar ôl bod i ffwrdd o ymarfer.

Rydym wedi cyflwyno rhai cynigion ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer ac rydym hefyd yn gofyn rhai cwestiynau am ddau ddull newydd yn y maes hwn o'r drefn reoleiddio. Rydym wedi cyflwyno ein cynigion ar gyfer:

1. [Safonau drafft newydd ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer](#)
2. [Safonau drafft cyffredin newydd ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer](#), gan gynnwys yr oriau ymarfer gofynnol, cyrsiau dychwelyd i ymarfer a'r opsiwn amgen newydd, sef prawf cymhwysedd.

Darllenwch y safonau drafft hyn cyn cwblhau'r ymgynghoriad.

Rydym yn gofyn am eich barn ar y canlynol:

1. [Y rhwystrau i ddychwelyd i ymarfer](#)
2. [Ein Safonau drafft ar gyfer Rhaglenni Dychwelyd i Ymarfer](#)
3. [Y prawf cymhwysedd mewn dwy ran](#)
4. [Hunanddatganiad](#)
5. [Ein Safonau dychwelyd i ymarfer newydd drafft](#)

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Rydym yn ddiolchgar i chi am roi o'ch amser i ddarllen ein hymgyngoriad ac ymateb iddo. Mae croeso i chi ateb rhai o'r cwestiynau neu bob un ohonynt. Er mwyn ei gwneud yn haws i chi ymateb, rydym hefyd wedi cynnwys rhestr o holl gwestiynau'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon.

Ar gyfer rhai cwestiynau, byddwn yn gofyn i chi ddarllen ychydig o ddeunydd perthnasol cyn i chi roi eich ymateb i ni.

Gallwch [ymateb i'r ymgynghoriad hwn](#) drwy ein gwefan.

Os na allwch gyflwyno'ch ymateb drwy ddefnyddio'r arolwg ar-lein, neu os bydd angen yr ymgynghoriad mewn fformat gwahanol arnoch, [anfonwch e-bost atom](#). Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn os bydd gennych unrhyw gwestiynau.

Gobeithiwn y byddwch yn ein helpu i nodi'ch barn drwy ateb cynifer o gwestiynau â phosibl. Mae pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad yn ddewisol. Rydym hefyd yn gofyn rhai cwestiynau 'Amdanoch chi' sy'n dangos i ni p'un a ydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl. Rydym yn deall os ydych yn dewis peidio ag ateb rhai o'r cwestiynau hyn. Byddwn yn dadansoddi ymatebion ar ran sefydliadau ar wahân i'r ymatebion gan unigolion, felly mae'n bwysig ein bod yn gwybod yn rhinwedd pa swydd rydych yn ymateb.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad byddwn yn gofyn am eich enw ac enw'r sefydliad. Ond gallwch ymateb yn ddienw os dymunwch.

Os ydych yn ymateb fel unigolyn ni fyddwn yn gofyn am eich enw. Felly, ni allwch newid eich ymatebion ar ôl i chi eu cyflwyno. Hefyd, ni fyddwn yn gallu rhoi cofnod o'ch ymatebion.

Darllenwch fwy am ein [datganiad preifatrwydd](#) a data

Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng **24 Medi 2018 a 16 Tachwedd 2018**. Mae hyn yn golygu na chaiff unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y cyfnod hwn eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Yr ymgynghoriad

1. Deall y rhwystrau i ddychwelyd i ymarfer

Mae llawer o resymau pam nad oes rhywun yn gweithio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ond sydd am aros ar ein cofrestr, neu ailymuno â hi.

1. Efallai y bydd pobl nad ydynt wedi bod yn ymarfer ac y mae eu cofrestriad â ni wedi mynd yn ddi-rym yn ceisio ailymuno â'n cofrestr.
2. Efallai y bydd pobl sydd wedi bod yn ymarfer y tu allan i'r DU ac y mae eu cofrestriad â ni wedi mynd yn ddi-rym yn ceisio ailymuno â'n cofrestr.
3. Efallai y bydd pobl sydd wedi bod i ffwrdd o ymarfer am aros ar ein cofrestr ond nad ydynt wedi gweithio'r oriau ymarfer gofynnol (450) i adnewyddu drwy ailddilysu. Er enghraifft, gallai hyn fod o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth neu salwch.
4. Pobl sydd wedi cael eu dileu o'n cofrestr ar ôl gwrandawriad addasrwydd i ymarfer ac ar ôl pum mlynedd wedi cael caniatâd gan banel addasrwydd i ymarfer i wneud cais i ailymuno â'n cofrestr.

Rydym am i chi feddwl am y rhwystrau a allai atal nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio rhag dychwelyd i ymarfer.

Q1. tA ydych yn cytuno bod nyrsys a bydwragedd sy'n ceisio dychwelyd i ymarfer ar hyn o bryd yn wynebu rhwystrau?

- | | |
|-----------------------------------|--------------------|
| - Cytuno'n gryf | - Anghytuno |
| - Cytuno | - Anghytuno'n gryf |
| - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | - Ddim yn gwybod |

Q2. Os ydych yn cytuno, beth yw'r rhwystrau mwyaf cyffredin, yn eich barn chi:

Ticiwch y tri sydd fwyaf cyffredin yn eich barn chi:

- sefyllfa ariannol y teulu
- ymrwymadau gofalu
- hyder
- iechyd personol
- mynediad at y brifysgol
- cymhwyster i gymryd rhan mewn rhaglen
- cyllid myfyrwyr
- pryderon ynglŷn â sgiliau astudio
- hyd y rhaglen
- cyflymder newidiadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Q3. A oes unrhyw rwystrau nad ydym wedi'u nodi?

Q4. Sut y gellid goresgyn y rhwystrau hyn?

Q5. Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach, nodwch nhw isod:

Q6. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod dulliau gwahanol o aildderbyn unigolion ar y gofrestr ar ôl cyfnod o amser i ffwrdd o ymarfer, yn dibynnu ar y canlynol:

- a ydynt wedi bod yn ymarfer
 - a ydynt wedi bod yn ymarfer y tu allan i'r DU
 - a ydynt yn brin o oriau i adnewyddu drwy ailddilysu
 - a ydynt yn cael caniatâd i ddychwelyd i ymarfer gan banel Addasrwydd i Ymarfer ar ôl iddynt gael eu dileu o'n cofrestr yn flaenorol
- Cytuno'n gryf
 - Cytuno
 - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
 - Anghytuno
 - Anghytuno'n gryf
 - Ddim yn gwybod

Q7. Os oes gennych unrhyw sylwadau, nodwch nhw isod:

Q8. A oes unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig canlynol a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol yn cyfiawnhau dull gwahanol o ddychwelyd i ymarfer?

Oedran:

- Oes
- Nac oes
- ddim yn gwyboda

Anabledd:

- Oes
- Nac oes
- ddim yn gwyboda

Ailbennu rhywedd:

- Oes
- Nac oes
- ddim yn gwyboda

Hil:

- Oes
- Nac oes
- ddim yn gwyboda

Crefydd neu gred:

- Oes
- Nac oes
- ddim yn gwyboda

Rhyw:

- Oes
- Nac oes
- ddim yn gwyboda

Cyfeiriadedd rhywiol:

- Oes
- Nac oes
- ddim yn gwyboda

Priodas a phartneriaeth sifil:

- Oes
- Nac oes
- ddim yn gwyboda

Beichiogrwydd a mamolaeth:

- Oes
- Nac oes
- ddim yn gwyboda

Os ydych wedi dewis 'oes' ar gyfer unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig hyn, nodwch pam:

2. Safonau ar gyfer rhaglenni addysgol

Ein rôl mewn addysg

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn cael eu haddysgu'n gyson i safon uchel. Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu rhoi gofal diogel ac effeithiol ar adeg ymuno â'n cofrestr, a thrwy gydol eu gyrfaeodd.

Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Er mwyn cyflwyno rhaglenni addysg a gymeradwywyd gan yr NMC, mae'n rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, fodloni'r gofynion a nodir o dan bum pennawd yn ein [Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydweigiaeth](#):

- **Diwylliant dysgu** – sy'n ymwneud â diwylliant dysgu sy'n foesebol, yn agored ac yn onest. Diwylliant sy'n cynnal amgylchedd dysgu diogel ac effeithiol sy'n parchu egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn gwneud arloesedd, dysgu rhyngbroffesiynol a gwaith tîm yn rhan ohono.
- **Llywodraethu ac ansawdd addysgol** – sy'n ymwneud â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol y disgwylir i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, eu bodloni.
- **Grymuso myfyrwyr** – sy'n ymwneud â sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cyfleoedd dysgu sydd eu hangen arnynt er mwyn cyrraedd y safonau hyfedredd a sicrhau deilliannau'r rhaglen a ddymunir.
- **Addysgwyr ac aseswyr** – sy'n ymwneud â sicrwydd bod y rhai sy'n cefnogi, yn goruchwyllo ac yn asesu myfyrwyr yn barod, yn fedrus ac yn meddu ar y cymwysterau addas, a'u bod yn cael y gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer eu rôl.
- **Cwricwla a dulliau asesu** – sy'n ymwneud â chwricwla a dulliau asesu sy'n galluogi myfyrwyr i sicrhau'r deilliannau sydd eu hangen i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn eu dewis faes.

Hefyd, mae'r [Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr](#) yn nodi ein gofynion o ran dysgu myfyrwyr a'u goruchwyllo yn yr amgylchedd ymarfer. Maent hefyd yn nodi sut y bydd addysgwyr yn asesu myfyrwyr ym meysydd theori ac ymarfer.

Mae'r safonau hyn wedi cael eu dylunio i fod yn gymwys i bob rhaglen addysg a gymeradwywyd gan yr NMC ac maent yn rhan o'n Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Ein cynigion ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer

Rydym yn pennu safonau penodol ar gyfer pob un o'r rhaglenni addysg a gymeradwywn. Mae hyn yn golygu ein bod wedi drafftio [Safonau newydd ar raglenni dychwelyd i ymarfer](#) yr hoffem i chi eu darllen cyn ateb y set nesaf o gwestiynau.

Yn y gorffennol, rydym wedi cymeradwyo cyrsiau ar wahân ar gyfer nyrsys a bydwragedd. Ond gwyddom fod niferoedd isel o geisiadau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer yn gallu golygu nad yw rhaglenni'n hyfyw ac nad ydynt yn cael eu cynnal. Mae rhai nyrsys a bydwragedd sydd am ddychwelyd i ymarfer yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y rhaglenni hyn.

Rydym yn cynnig y bydd rhaglenni'n diwallu anghenion unigol, y byddant yn seiliedig ar ddeilliannau ac yn gysylltiedig â'r safonau proffesiynol priodol. Bydd rhaglenni dychwelyd i ymarfer cymeradwy yn gallu recriwtio carfan gymysg o bob un o'n grwpiau proffesiynol: nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Rydym yn awgrymu y bydd hyn yn ehangu cyfleoedd dysgu, yn hwyluso dysgu rhyngbroffesiynol ac yn gwella hyfywedd rhaglenni dychwelyd i ymarfer. Rhaid i raglenni ddarparu deilliannau dysgu priodol o leoliadau gyda phartneriaid dysgu ymarfer gan gefnogi dysgu perthnasol ac asesu hyfedredd ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n meddu ar gymhwyster SCPHN, yn ogystal â chymdeithion nyrsio.

Ein nod yw galluogi proses newydd o ddychwelyd i ymarfer sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau ac sy'n hyblyg drwy gyfnod cymeradwy o addysg a hyfforddiant sy'n cynnwys cyfleoedd i feithrin hyder mewn ymarfer.

Rydym yn cynnig y bydd angen i sefydliadau addysg cymeradwy a'u partneriaid lleoliadau ymarfer gyflawni safonau'r rhaglenni hyn, er mwyn cael eu cymeradwyo i gynnal rhaglenni dychwelyd i ymarfer.

Cyflwynir y safonau drafft hyn o dan y penawdau canlynol:

- **Dethol, derbyn a dilyniant** – safonau am addasrwydd ymgeisydd a'i gyfranogiad parhaus mewn rhaglen dychwelyd i ymarfer
- **Cwricwlwm** – safonau am gynnwys y rhaglen dychwelyd i ymarfer a'r modd y caiff ei chyflwyno a'i gwerthuso
- **Dysgu ymarfer** – safonau yn benodol i ddysgu sy'n cael ei gynnal mewn lleoliadau ymarfer
- **Goruchwylio ac asesu** – safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu diogel ac effeithiol ar raglen dychwelyd i ymarfer
- **Cymhwyster ar gyfer y gofrestr** – safonau sy'n nodi'r credydau/dyfarniad a'r wybodaeth ar gyfer ailymuno â chofrestr yr NMC, neu aros arni.

Safonau drafft ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer

Q9. Rydym yn cynnig y dylai sefydliadau addysg cymeradwy fapio dysgu a phrofiad blaenorol ymgeiswyr i'r [safonau hyfedredd perthnasol](#).

A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Os oes gennych unrhyw sylwadau, nodwch nhw isod:

Q10. Yna dylai'r sefydliad addysg cymeradwy gynllunio rhaglen yn ôl anghenion dysgu yr unigolyn a'i gyfnodau cofrestru cyfredol neu flaenorol a'i faes ymarfer bwriadedig.

A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Os oes gennych unrhyw sylwadau, nodwch nhw isod:

Q11. Rydym yn cynnig y dylid cael rhaglenni dychwelyd i ymarfer cymeradwy gyda chwricwla a all fod yn gymwys i bob rhan o'r gofrestr. Mae hyn yn golygu y gellid recriwtio grŵp cymysg o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n dychwelyd. Dylai hyn gynnwys lleoliadau priodol gyda phartneriaid dysgu ymarfer i gefnogi dysgu ac asesu hyfedredd ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n meddu ar gymhwyster SCPHN, a chymdeithion nyrsio.

A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu hwn?

- | | |
|-----------------------------------|--------------------|
| - Cytuno'n gryf | - Anghytuno |
| - Cytuno | - Anghytuno'n gryf |
| - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | - Ddim yn gwybod |

Os oes gennych unrhyw sylwadau, nodwch nhw isod:

Mae'r safonau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau addysg cymeradwy deilwra dysgu theori ac ymarfer ar raglenni dychwelyd i ymarfer i anghenion dysgu unigol sy'n ymwneud â'r cofrestriad y maent yn ceisio dychwelyd iddo neu ei adnewyddu. Rydym yn cynnig bod cynnwys cynllun sefydliadau addysg cymeradwy (theori ac ymarfer) a hyd rhaglen yn dibynnu ar gofrestrriad blaenorol myfyrwyr, eu profiad a'u hanghenion dysgu.

Q12. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliad addysg cymeradwy, yn dibynnu ar gofrestrriad blaenorol myfyriwr, ei brofiad a'i anghenion dysgu, gynllunio:

Cynnwys y rhaglen (theori ac ymarfer):

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Y deilliannau dysgu:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Hyd y rhaglen:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Yr asesiadau:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Os oes gennych unrhyw sylwadau, nodwch nhw isod:

Q13. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am ein *Safonau drafft ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer?*

3. Y prawf cymhwysedd

Hoffem glywed eich barn ar ddull newydd posibl o ddychwelyd i ymarfer: defnyddio prawf cymhwysedd.

Mae'r prawf cymhwysedd mewn dwy ran: prawf dewis lluosog o wybodaeth ac asesiad ymarferol o gymhwyso gwybodaeth a sgiliau drwy archwiliad clinigol strwythuredig gwrthrychol (OSCE). Ceir profion cymhwysedd ar wahân ar gyfer nyrsys a bydwagedd ac rydym yn cynnig y dylid cael un ar gyfer cymdeithion nyrsio er mwyn asesu p'un a yw'r ymgeisydd yn cyflawni'r safonau hyfedredd sy'n angenrheidiol er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol a chael ei aildderbyn ar y gofrestr neu adnewyddu ei gofrestriad.

Ni fyddai'n rhaid i nyrs, bydwraig na chydymaith nyrsio ymarfer o dan oruchwyliaeth na mynd ar raglen a gymeradwywyd gan yr NMC pe baent yn dewis sefyll y prawf mewn dwy ran. Byddai'r prawf cymhwysedd yr un peth â'r prawf cymhwysedd y byddai nyrsys a bydwagedd a [gafodd eu hyfforddi y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd](#) yn ei sefyll a wnaeth gais i ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf gyda chymwysterau nyrsio a bydwreigiaeth tramor. Gallai'r opsiwn hwn roi dewis amgen hyblyg i'r rhai sydd ychydig yn brin o'r oriau ymarfer gofynnol ond sydd wedi cynnal eu safonau hyfedredd ac sy'n barod i gael eu hasesu heb addysg na hyfforddiant pellach.

Rydym yn cynnig mewn rhai amgylchiadau y dylai pobl fod yn gallu dewis ailymuno â'r gofrestr drwy brawf cymhwysedd yn lle cwblhau rhaglen addysgol a gymeradwywyd gan yr NMC.

⁹ Articles 5(2), 9 and 10 of the Order

Mewn egwyddor:

Q14. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno, y dylai'r unigolion canlynol sydd wedi cael eu cofrestru o'r blaen, ac sydd nawr am wneud cais i ailymuno â'r gofrestr, fod yn gallu ailymuno drwy gwblhau prawf cymhwysedd yn llwyddiannus yn lle cwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer?

Pobl nad ydynt wedi bod yn ymarfer:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pobl sydd wedi bod yn ymarfer y tu allan i'r DU:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pobl sy'n cael caniatâd i ddychwelyd i ymarfer gan banel Addasrwydd i Ymarfer ar ôl iddynt gael eu dileu o'n cofrestr yn flaenorol:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Os oes gennych unrhyw sylwadau, nodwch nhw isod:

Q15. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai unigolyn sydd am wneud cais i adnewyddu ei gofrestrriad drwy ailddilysu ond nad yw'n bodloni ein gofyniad o ran cwblhau'r oriau ymarfer gofynnol, fod yn gallu adnewyddu ei gofrestrriad drwy gwblhau prawf cymhwysedd yn llwyddiannus yn lle cwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer?

- | | |
|-----------------------------------|--------------------|
| - Cytuno'n gryf | - Anghytuno |
| - Cytuno | - Anghytuno'n gryf |
| - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | - Ddim yn gwybod |

If you have any comments please state them below:

4. Hunanddatganiad

Hoffem glywed eich barn ar b'un a ddylem hefyd ymchwilio ymhellach i ddull newydd posibl o ddychwelyd i ymarfer yn y dyfodol: hunanddatganiad.

Defnyddir hunanddatganiad gan rai rheoleiddwyr gofal iechyd eraill. Gall fod yn gyfuniad o ymarfer dan oruchwyliaeth a DPP lle mae'r unigolyn yn y pen draw yn ceisio ailymuno â'r gofrestr drwy hunanddatgan ei fod yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer ailymuno. Gyda'r dull hwn byddai angen i unigolion ddangos eu bod yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol drwy gyflwyno portffolio. Gallai dull portffolio fod yn debyg i'r gofynion ar gyfer ailddilysu a gallai gynnwys rhyw fath o ddatganiad neu gadarnhad ategol. Gallai gynnwys:

- tystiolaeth o 35 awr o leiaf o ddatblygiad proffesiynol parhaus: y mae'n rhaid i 20 ohonynt fod yn gyfranogol
- pum darn o adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer
- pum cofnod dysgu myfyriol ysgrifenedig
- tystiolaeth o drafodaeth fyfyrion gydag unigolyn cofrestredig arall ynglŷn â'u cyfrifon myfyriol

Gallai hunanddatganiad hefyd gynnwys profiad ymarfer ar gwrs nad yw'n rhan o raglen gymeradwy ac felly ni fyddai'n rhan o'n fframwaith sicrwydd ansawdd ar gyfer addysg a hyfforddiant nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Gallai'r opsiwn hwn fod yn llwybr newydd i ailymuno â'n cofrestr neu adnewyddu cofrestriad. Mae diddordeb gennym mewn clywed eich barn ar b'un a ddylem ystyried y model amgen hwn yn y dyfodol.

Rydym yn cynnig ein bod yn ystyried opsiwn sy'n golygu bod pobl sydd wedi cael eu cofrestru o'r blaen ac sydd am ailymuno â'r gofrestr, yn gallu ailymuno â'n cofrestr drwy ryw fath o hunanddatganiad.

Q16. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem ystyried opsiwn sy'n golygu bod yr unigolion canlynol, sydd wedi cael eu cofrestru o'r blaen ac sydd nawr am wneud cais i ailymuno â'r gofrestr, yn gallu ailymuno â'n cofrestr drwy ryw fath o hunanddatganiad?

Pobl nad ydynt wedi bod yn ymarfer:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pobl sydd wedi bod yn ymarfer y tu allan i'r DU:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pobl sy'n cael caniatâd i ddychwelyd i ymarfer gan banel Addasrwydd i Ymarfer ar ôl iddynt gael eu dileu o'n cofrestr yn flaenorol:

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Q17. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem ystyried opsiwn sy'n golygu bod unigolyn sydd am adnewyddu ei gofrestriad drwy ailddilysu ond nad yw'n bodloni ein gofyniad o ran cwblhau'r oriau ymarfer gofynnol, yn gallu adnewyddu ei gofrestriad drwy ryw fath o hunanddatganiad?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Os oes gennych unrhyw sylwadau, nodwch nhw isod:

Q18. Pa fath neu fodel o hunanddatganiad allai hyn fod?

Os oes gennych unrhyw sylwadau, nodwch nhw isod:

5. Safonau dychwelyd i ymarfer newydd drafft

Mae ein [safonau dychwelyd i ymarfer newydd drafft](#) yn dwyn ein holl safonau arfaethedig sy'n ymwneud â dychwelyd i ymarfer ynghyd mewn un lle fel bod yr holl lwybrau amgen a'r dystiolaeth sy'n ofynnol yn glir. Caiff y safonau drafft hyn eu cwblhau yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac fe'u hadolygir yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hyblyg ac yn gymesur.

Maent yn cynnwys y gofynion amgen cyfredol sy'n ymwneud ag oriau ymarfer a rhaglenni dychwelyd i ymarfer a'r opsiwn newydd o brawf cymhwysedd a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn. Os ystyriwn fodel hunanddatganiad, bydd hyn yn arwain at ddiwygiadau pellach i'r safonau drafft hyn yn y dyfodol.

Q19. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y safonau drafft hyn yn ogystal â'r rhai rydych wedi'u gwneud mewn ymateb i unrhyw un o'r cwestiynau blaenorol?
